Canllawiau Ymarfer Interim Trosglwyddo i Lety Awdurdod Lleol o Ganolfan Gadw'r Heddlu

Cytundeb Cydweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Heddlu Gogledd Cymru a'r Tîm Dyletswydd Argyfwng

Dyddiad y Polisi	Mai 2020
Awdur y Polisi	James Warr
Teitl yr adolygydd	Rheolwr Gweithrediadau
Asiantaeth	Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint
Awdur y Polisi	PA Sharon McCairn
Teitl yr adolygydd	Prif Arolygydd, Canolfan Gadw'r Heddlu
Asiantaeth	Heddlu Gogledd Cymru
Cadarnhawyd a Llofnodwyd gan	Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru

1.0. **Diben**

1.1. Diben y protocol lleol hwn yw cefnogi'r Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer rheolaeth briodol a throsglwyddo plant a phobl ifanc gan yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol (2016) a chytuno ar brotocol lleol ar draws Gogledd Cymru yn defnyddio'r canllawiau uchod.

1.2. Mae'r ddwy ddogfen yn sicrhau bod cyfrifoldebau awdurdod lleol ac asiantaethau partner o dan A.38(6) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 i drosglwyddo pobl ifanc i lety awdurdod lleol ar ôl cael eu cyhuddo ac Adran 77 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'r awdurdod lleol 'dderbyn a darparu llety i blant' o dan y ddarpariaeth uchod.

1.3. Ble mae person ifanc yn cael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol, bydd y plentyn neu berson ifanc 'yn derbyn gofal' at ddiben Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ble mae plentyn wedi'i drosglwyddo o dan Adran 38 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth yr Heddlu, mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol ac yn atebol am gynnal y plentyn hwnnw'n gyfreithiol Ble mae plentyn yn cael ei gadw o dan Adran 38 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, ac nad yw'n cael llety gan awdurdod lleol na'r GIG, mae unrhyw gostau rhesymol ar gyfer llety i'r plentyn yn cael ei adfer gan yr awdurdod lleol yn yr ardal ble mae'r plentyn yn preswylio fel arfer (Adran 77(4) a (5) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.4. O ganlyniad, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod 'dyletswydd lwyr ar yr awdurdod lleol i ddarparu llety' ble ceisir gan yr heddlu (R (ar gais M) v Cyngor Gateshead [20060] EWCA Civ 221). Mae gofynion o'r fath yn cael eu hatgyfnerthu yng Nghanllawiau Rheoli Achos y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) sy'n nodi 'Os yw'n ofynnol i gadw plentyn neu berson ifanc dros nos, mae'n rhaid iddynt gael eu trosglwyddo i lety awdurdod lleol ac mae cyfrifoldeb eu gofal yn trosglwyddo i'r awdurdod lleol' (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid; para 1.4, Rheoli Mechnïaeth a Chadw yn y Ddalfa).

2.0. <u>Nod</u>

2.1. Nodir y gall bod yn y ddalfa fod yn amser gofidus i blant a phobl ifanc, llawer ohonynt yn ddiamddiffyn ac o bosibl ag anghenion ychwanegol.

2.2. Nod y protocol lleol hwn yw sicrhau bod plant a phobl ifanc rhwng 10-17 oed, yn treulio'r lleiaf o amser yn y ddalfa nag sy'n ofynnol ac yn cael eu trosglwyddo o'r ddalfa i lety awdurdod lleol priodol yn unol â Chanllawiau Cymru Gyfan.

2.3. Yn ogystal, ble na fu'n bosibl cyflawni canlyniadau o'r fath, nod y protocol hwn yw bod gan holl asiantaethau perthnasol fesurau ar waith i adolygu'r penderfyniadau a wnaed yn yr achosion hyn er mwyn goresgyn rhwystrau yn y dyfodol. At ddiben y canllaw hwn, mae plentyn neu berson ifanc yn y ddalfa yn cael ei ystyried yn y ddalfa dros nos dros 5 awr os ydynt yn parhau yn y ddalfa o'r amser rhwng 00:00 – 05:00.

3.0. Gwrthod Mechnïaeth a Throsglwyddo i Lety Awdurdod Lleol

3.1. Mae gan bobl o bob oedran yr hawl i fechnïaeth o dan y Ddeddf Mechnïaeth 1976 ar ôl cael eu cyhuddo oni bai bod eithriadau penodol yn berthnasol. Mae yna nifer o amgylchiadau ble gellir gwrthod mechnïaeth o dan y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus (1984: Adran 38(1)) sy'n cynnwys; ble nad yw unigolyn yn gallu cael ei adnabod, methu cadarnhau enw neu gyfeiriad, sail i gredu na fydd yr unigolyn yn ymddangos yn y llys neu'n ateb mechnïaeth, atal troseddu pellach, atal niwed, atal ymyrraeth gyda chyfiawnder neu ymchwiliad, angenrheidiol i gymryd sampl a'i ddiogelwch ei hun neu'n cael ei gyhuddo gyda thrais difrifol neu dreisiol a restrwyd yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, pan ddylai'r person ifanc gael ei atgyfeirio i'r llys cyntaf sydd ar gael.

3.2. Os bydd pryderon yn bodoli, mae'n rhaid i Swyddog y Ddalfa ystyried a fyddent yn cael eu lliniaru drwy osod amodau ar fechnïaeth plentyn. Wrth wneud penderfyniad, dylid ystyried canllawiau presennol, adnoddau asesu y cytunwyd arnynt yn lleol neu ymgynghori gyda Nyrs y Ddalfa. Mae'n arfer da i Swyddog y Ddalfa gysylltu â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yr Awdurdod Lleol i drafod pryderon ac amodau priodol. Ble bydd mechnïaeth plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed yn cael ei wrthod, mae'n rhaid eu trosglwyddo i lety awdurdod lleol.

3.3. Dylai oedolion priodol arsylwi'r broses gwneud penderfyniadau a dylid caniatáu iddynt herio Swyddogion y Ddalfa. Os bydd Swyddog y Ddalfa yn penderfynu y dylai'r fechnïaeth gywir gael ei gwrthod mae'n rhaid iddynt fanylu'r rhesymau am y gwrthod ar y Cofnod Dalfa (o dan Adran 38 (3) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984). Ble mae plentyn yn mynd i'r Llys naill ai o Fechniaeth yr Heddlu neu lety Awdurdod Lleol, dylai'r Llys graffu ar y penderfyniad i wadu'r plentyn o'i hawl i fechnïaeth.

3.4 Os yw Awdurdod Lleol yn datgan nad yw'n gallu lleoli plentyn, mae proses uwchgyfeirio wedi'i gytuno rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau plant:

- Oriau swyddfa (dydd Llun i ddydd Gwener 0900 - 1700) Swyddog y Ddalfa yn cysylltu â'r Arolygydd Ditectif PVPU i drafod/ datrys gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant;
- Oriau y tu allan i swyddfa - Swyddog y Ddalfa yn uwchgyfeirio at Arolygydd Ditectif CADRE i drafod/ adolygu gyda Gweithiwr Cymdeithasol EDT. Bydd gan Weithiwr Cymdeithasol EDT ddisgresiwn a ydynt yn cysylltu â Silver ar alwad ar gyfer yr Awdurdod lleol perthnasol;
- Oriau y tu allan i swyddfa - Arolygydd Ditectif CADRE ar ddyletswydd i hysbysu Arolygydd Ditectif PVPU Ardal ar gyfer cyfarfod dilynol yn ystod oriau swyddfa i drafod gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant;
- PVPU Strategol i weld faint o achosion sydd yn cael eu huwchgyfeirio y mis, a chanlyniadau gyda data a nodwyd yn y

cyfarfod Partneriaeth ar y cyd i gyd-fonitro tueddiadau ac effeithiau rhanbarthol.

4.0. Eithriadau i Drosglwyddo

4.1. Mae yna eithriadau i ble mae trosglwyddo i lety awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn briodol.

Dylid ystyried trosglwyddo i lety awdurdod lleol pan mae person ifanc wedi'i arestio am dorri mechnïaeth heb unrhyw gyhuddiadau newydd (A.7 Deddf mechnïaeth 1976) neu pan fydd Gwarant heb ei gefnogi gyda mechnïaeth yn cael ei gyflwyno (A.13 Deddf Llys Yr Ynadon).

Os bydd yr heddlu yn ardystio bod y person ifanc wirioneddol yn cynrychioli risg o niwed difrifol a ble nad yw llety o'r fath ar gael, gall y person ifanc gael ei gadw yng ngorsaf yr heddlu tra'n aros am eu h/ymddangosiad yn y llys. (Adran 38 (6) (b) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984).

Pan mae trosglwyddiad yn 'anymarferol' i wneud hynny. Os bydd Swyddog y Ddalfa yn penderfynu bod y trosglwyddiad yn anymarferol mae'n rhaid iddynt wneud cofnod ysgrifenedig manwl o'r rhesymau dros y penderfyniad (Adran 38(7) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984). Mae'r diffiniad o 'anymarferol' yn cynnwys diffiniad cul ac o dan Codau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol C.16.10;

'nid yw ymddygiad person ifanc na natur y drosedd yn rhoi sail i swyddog y ddalfa benderfynu ei fod yn anymarferol i drefnu i drosglwyddo'r person ifanc i ofal awdurdod lleol. Mae anymarferoldeb yn ymwneud â gofynion cludiant a theithio a diffyg llety diogel a ddarperir at ddibenion cyfyngu ar ryddid nad yw'n ei gwneud yn anymarferol trosglwyddo'r person ifanc. Mae argaeledd llety diogel yn ffactor mewn perthynas â pherson ifanc 12 oed neu drosodd ble na fyddai llety awdurdod lleol arall yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol ganddynt. Mae'r rhwymedigaeth i drosglwyddo person ifanc i lety awdurdod lleol yr un mor berthnasol i berson ifanc a gyhuddir yn ystod y dydd â pherson ifanc i gael ei gadw dros nos, yn ddarostyngedig i ofyniad ddod â pherson ifanc o flaen llys o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.'

5.0. Llety Diogel ac Anniogel

5.1. Ni ddylai argaeledd llety awdurdod lleol atal trosglwyddo person ifanc o orsaf yr heddlu, fel y nodwyd uchod, mae'n ddyletswydd llwyr ar yr awdurdod lleol i ddarparu llety (Adran 77 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

5.2. Hefyd, nid oes yna ddarpariaeth statudol sy'n atal dychwelyd person ifanc i gartref y rhieni ond dylai'r awdurdod lleol ystyried bod mechnïaeth wedi'i wrthod o orsaf yr heddlu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr heddlu mewn amgylchiadau cyfyngedig yn gwneud cais i drosglwyddo i lety awdurdod lleol diogel. Dylai ceisiadau o'r fath ar

gyfer llety diogel ond cael eu gwneud pan fydd person ifanc 12-17 oed wedi'i gyhuddo o lofruddiaeth neu o dan Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 Atodlen 15 Rhan 1 (trais ymosodol) neu Ran 2 (trais rhywiol) **A** bod Swyddog y Ddalfa yn ardystio na fyddai llety anniogel yn 'ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol' (Adran 38 (6)(b) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984). Mae niwed difrifol yn cael ei ddiffinio fel;

*'Cyfeiriad at ddiogelu aelodau o'r cyhoedd o farwolaeth anaf personol difrifol, boed yn gorfforol neu'n seicolegol' (*Adran 38 (6A) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984*)*

5.3. Os yw'r heddlu yn fodlon bod perygl o'r fath yn bodoli dylent ofyn i'r awdurdod lleol ddarparu llety diogel. Nid oes yna ddyletswydd llwyr i'r awdurdod lleol ddarparu llety diogel. Os nad yw llety diogel ar gael, dylai'r person ifanc gael ei gadw yng ngorsaf yr heddlu tra'n aros am ei ymddangosiad ef neu hi yn y llys. Dylid nodi unrhyw fethiant i ddarparu llety yn y cofnod dalfa a'i gyfeirio i Banel Monitro ac Adolygu'r awdurdod lleol (Atodiad A).

5.4. Pan gofynnir am drosglwyddiad i lety diogel / anniogel dylai Swyddog y Ddalfa ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Awdurdod Lleol;

- Gwybodaeth bersonol y plentyn, gan gynnwys manylion unrhyw berygl neu fregusrwydd;
- Natur y drosedd;
- Rhesymau dros wrthod mechnïaeth a pham na fyddai amodau mechnïaeth yn lliniaru'r pryderon hyn.
- Eglurhad pam bod y plentyn yn risg o farwolaeth neu anaf difrifol i'r cyhoedd (ble gwneir cais am lety diogel).

5.5. Mae Adran 119 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a 25(1) Deddf Plant 1989 yn caniatáu i'r Awdurdod Lleol roi plentyn mewn llety diogel yng Nghymru, hyd yn oed os nad oedd hwn yn gais Swyddog y Ddalfa. Gall Awdurdodau Lleol Cymru hefyd roi plentyn mewn cartref diogel i blant yn Lloegr o dan Adran 25 Deddf Plant 1989. Mae Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 yn gweithredu prawf wedi'i addasu mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ei ddefnyddio os yw'n ystyried lleoli plentyn 12-17 oed, o dan Adran 38(6) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, mewn Llety Diogel (rheoliad 15). Mae'r addasiad yn dileu'r angen i ddangos bod gan y plentyn hanes o ddianc. Os yw'r plentyn o dan 13 oed, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn rhoi'r plentyn mewn llety diogel.

6.0. Grym i Gadw'n Gaeth

6.1. Pan mae Swyddog Heddlu yn trosglwyddo plentyn i staff Awdurdod Lleol, maent yn trosglwyddo grym i gadw'r plentyn hwnnw'n gaeth yn gyfreithiol. **Mae hyn yn berthnasol i bob achos ble mae plentyn wedi'i gosbi a gwadu unrhyw fechnïaeth.**

6.2 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 adran 38(6B) yn nodi: “Ble mae person ifanc wedi’i arestio yn cael ei symud i lety Awdurdod Lleol o dan is-adran (6) uchod, bydd yn gyfreithiol i unrhyw un sy’n gweithredu ar ran yr awdurdod i’w gadw'n gaeth.” Ar yr un pryd, mae adran 39(4) yn pwysleisio, ar bwynt trosglwyddo i’r Awdurdod Lleol, mae cyfrifoldeb swyddogion dalfa’r heddlu dros y plentyn yn dod i ben yn llwyr. Mae’n rhaid i staff Awdurdod Lleol fod yn ymwybodol o lefel cyfrifoldeb mae’r trosglwyddiad grym hwn yn ei roi arnynt.

6.3. Mae’n rhaid i’r plentyn fod mewn dalfa gyfreithiol nes byddant yn ymddangos yn y llys. Ar ôl trosglwyddo, mae staff Awdurdod Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod y gystodaeth gyfreithiol yn cael ei chynnal. Maent yn geidwaid, gyda’r un cyfrifoldeb cyfreithiol tuag at y plentyn â swyddog dalfa’r heddlu at blentyn a gedwir yn Ystafell Ddal yr heddlu.

6.4. Pan drosglwyddir o ddalfa’r heddlu i lety Awdurdod Lleol (yn arbennig llety anniogel) mae’r cyfleoedd i blentyn ddianc yn debygol o gynyddu. Gall hefyd ymddangos i‘r plentyn bod natur eu dal yn llai difrifol a bod dianc o lety Awdurdod Lleol yn wahanol i ddianc o Ystafell Ddal yr heddlu. Nid felly yn gyfreithiol. Os bydd y plentyn yn dianc maent yn cyflawni trosedd o ddianc o ddalfa gyfreithiol. **Yn yr amgylchiadau hyn, dylai’r Awdurdod Lleol roi gwybod am drosedd o’r fath ar unwaith i’r Heddlu.**

6.5. Mae’n bwysig bod y plentyn yn deall hyn er mwyn atal camddealltwriaethau gwirioneddol gan arwain at fwy o anawsterau i’r plentyn; a sicrhau bod unrhyw gyhuddiad o ganlyniad i ddianc dalfa gyfreithiol yn gyfiawnadwy. Wrth i’r plentyn drosglwyddo o’r heddlu i’r Awdurdod Lleol, mae’n rhaid i’r heddwas (ym mhresenoldeb staff Awdurdod Lleol) hysbysu’r plentyn o’r canlynol:

“Rydych wedi eich cyhuddo o [trosedd] ac mae’n rhaid i chi ymddangos yn y llys ar [dyddiad]. Gwrthodwyd mechnïaeth i chi, sy’n golygu bod yn rhaid i chi aros yn y ddalfa nes y dyddiad y byddwch yn y llys. Os byddech yn oedolyn, byddech yn aros yng nghelloedd yr heddlu tan hynny, ond oherwydd eich bod o dan 18 oed, mae’r Awdurdod Lleol yn mynd i ofalu amdanoch chi nes byddwch yn ymddangos yn y llys. Bydd yr Awdurdod Lleol yn penderfynu ble byddwch yn aros tan hynny.

Mae’n bwysig iawn eich bod yn deall eich bod yn parhau yn y ddalfa: mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi aros yn lle y dywedir wrthych am fynd gan yr Awdurdod Lleol a gallwch fynd allan gyda’u caniatâd nhw yn unig. Os byddwch yn gadael heb ganiatâd, bydd yr Awdurdod Lleol yn hysbysu’r heddlu a byddwch yn mynd i fwy o helbul, fel y byddech wedi rhedeg i ffwrdd o orsaf yr heddlu. Ydych chi’n deall?”

6.6. Dylai’r swyddog heddlu a staff yr Awdurdod Lleol fod yn fodlon bod y plentyn wedi deall y pwyntiau hyn, gan gynnig eglurhad pellach os bydd angen. Dylai’r plentyn a’r Oedolyn Priodol lofnodi’r cofnod dalfa i nodi eu bod wedi deall yr uchod.

6.7. Os yw Oedolyn Priodol yn ymwybodol bod plentyn i gael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol, dylent hefyd allu helpu i egluro'r sefyllfa a pharatoi'r plentyn ar gyfer y trosglwyddo.

7.0. Cludiant a Throsglwyddo

7.1. Dylid cytuno ar ddarpariaeth a logisteg cludiant o Ddalfa'r Heddlu rhwng yr Heddlu ac Awdurdod Lleol fesul achos a dylid ystyried asesiadau risg lles y plentyn. Ffactorau i'w hystyried fyddai oed, pellter o gartref, aeddfedrwydd, anhawster teithio, difrifoldeb y drosedd a bregusrwydd.

7.2. Pan fydd plentyn yn cael ei gyhuddo a'i gadw yn y ddalfa mae cyfrifoldeb sicrhau ei fod yn mynd i'r Llys yn nwylo:

- Yr Heddlu os nad yw'r plentyn wedi'i drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol.
- Yr Awdurdod Lleol os yw'r plentyn wedi'i drosglwyddo naill ai i lety diogel neu anniogel.

7.3. Ble mae plentyn wedi'i drosglwyddo i Lety Awdurdod Lleol y tu allan i oriau, mae'n hanfodol bod gwasanaeth y tu allan i oriau yr Awdurdod Lleol neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng yn hysbysu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fel eu bod yn ymwybodol ei fod wedi'i gadw yn y ddalfa ac angen bod yn bresennol yn y Llys.

8.0. Statws Derbyn Gofal

8.1. Ble mae person ifanc yn cael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol, bydd y plentyn neu berson ifanc yn 'derbyn gofal' at ddibenion Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 os bydd mewn llety am gyfnod parhaus dros 24 awr.

9.0. Uwchgyfeirio ac Anghytundebau

9.1. Ble mae yna anghytundeb rhwng staff yr Awdurdod Lleol a staff Dalfa'r Heddlu ar sut y dylai plentyn gael ei drin o dan y cytundeb gwaith, dylai'r materion gael eu huwchgyfeirio i Uwch Reolwyr Gwasanaethau Plant a/neu Arolygwyr Dalfa Dyletswydd yr Heddlu.

10.0. Methu Lleoli mewn Llety Diogel / Anniogel

10.1. Mewn achosion ble mae'r heddlu wedi gwneud ceisiadau am lety diogel neu anniogel ac mae'r awdurdod lleol wedi methu cydymffurfio â'r cais hwn, dylai Swyddog y Ddalfa gofnodi methiannau o'r fath ar gofnod dalfa'r person ifanc. Dylai swyddog y ddalfa uwchgyfeirio'r achos i Arolygydd ar Ddyletswydd ar y pryd a hysbysu arolygydd heddlu y ddalfa drwy e-bost. Rhoddir gwybod i Ddditectif Uwcharolygydd y PVPU am achosion o'r fath a thrafodir mewn cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant.

11.0. Rôl Heddlu Gogledd Cymru

- Dylai'r Heddlu gysylltu â'r Gwasanaethau Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng (os y tu allan i oriau) gynted â phosibl ble mae'n debygol y gwrthodir mechnïaeth i'r person ifanc ar ôl cael ei gyhuddo i allu dod o hyd i leoliad posibl yn gyflym. Dylai Heddlu Gogledd Cymru roi'r wybodaeth sydd ar gael i'r awdurdod lleol a manylion hysbys am y person ifanc er mwyn dod o hyd i leoliad priodol.

- Mae'n ofynnol i'r heddlu asesu os yw'r person ifanc mewn 'perygl o niwed difrifol' ac a oes angen lleoliad awdurdod lleol diogel.

- Ble mae yna bosibilrwydd y gellir gwrthod mechnïaeth i berson ifanc, ble bynnag bo'n bosibl, dylid ceisio cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gadarnhau os gallai gwrthwynebiadau i fechnïaeth gael eu goresgyn drwy amodau mechnïaeth posibl a awgrymwyd / cefnogaeth mechnïaeth yn hytrach na cheisio llety diogel neu anniogel.

- Ni cheisir llety Awdurdod Lleol os yw'r person ifanc wedi'i arestio am dorri mechnïaeth (Deddf Mechnïaeth, a.7) neu warant heb ei gefnogi gyda mechnïaeth (Deddf Llys yr Ynadon, a.13). Bydd yr heddlu yn hysbysu Swyddog Dyletswydd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (yn ystod oriau'r swyddfa) neu drwy e-bost diogel y tu allan i oriau swyddfa i alluogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i baratoi ar gyfer y Llys a chysylltu â Gwasanaethau Plant.

- Ble mae'r heddlu wedi methu cysylltu â'r awdurdod lleol ar ôl 'sawl ymdrech', mae trosglwyddiad wedi'i ystyried yn 'anymarferol' neu lety diogel ddim ar gael, dylai'r heddlu gwblhau'r tystysgrifau perthnasol i'r llys a chyflwyno'r person ifanc yn y llys nesaf sydd ar gael (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, A.38(6) (a), A.38(6) (b), A.38(7).
- Ble cytunir i drosglwyddo, dylai'r Heddlu a'r Gwasanaethau Plant gytuno sut bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cludo i leoliad diogel/anniogel.

- Bydd yr Heddlu yn hysbysu'r person ifanc ym mhresenoldeb yr Awdurdod Lleol am y pŵer i gadw'n gaeth (gweler uchod).

Rôl Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Oedolyn Priodol

- Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau Oedolion Priodol i blant a phobl ifanc ym mhob Gorsaf Heddlu ar draws eu hardal leol. Bydd darpariaeth hefyd yn ei le gyda'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer darpariaeth y tu allan i oriau.

- Yn dilyn cais Oedolyn Priodol i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid neu ddarparwr perthnasol gofynnir i Swyddog y Ddalfa a oes yna debygolrwydd o fechnïaeth. Ble nad oes yna naill ai fynegiant neu debygolrwydd o wrthod mechnïaeth, dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder

Ieuenctid neu ddarparwr perthnasol gysylltu ar unwaith gyda'r Gwasanaethau Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng i ganiatáu ar gyfer dod o hyd i leoliadau posibl.

- Ble mae Heddlu Gogledd Cymru yn cysylltu â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a bod yna arwydd y gellir gwrthod mechnïaeth i berson ifanc, ble bynnag bo'n bosibl, dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (drwy gysylltiadau gyda Gwasanaethau Plant) ymdrechu i gadarnhau os gall gwrthwynebiad i fechnïaeth gael ei oresgyn ac awgrymu amodau mechnïaeth posibl yn hytrach na cheisio llety diogel neu anniogel.

- Ble gwrthodir mechnïaeth yn ystod oriau'r swyddfa, dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid anfon unrhyw asesiadau sydd ar gael a dogfennau a gynhelir gan y Gwasanaeth i'r Gwasanaethau Plant drwy e-bost diogel i allu dod o hyd i leoliadau.

- Ble bydd person ifanc yn cael ei gyflwyno i'r llys nesaf, bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cysylltu â'r Tîm Dyletswydd ac Asesu Gwasanaethau Plant a darparu'r wybodaeth berthnasol i allu dod o hyd i leoliadau. Ble bydd y person ifanc o flaen y llys ar ddydd Sadwrn neu Ŵyl Banc, bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cysylltu gyda'r Tîm Dyletswydd Argyfwng. Bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn mynd i'r llys ar ran yr awdurdod lleol ac yn cysylltu â'r Gwasanaethau Plant / Tîm Dyletswydd Argyfwng ynglŷn â mechnïaeth bellach ac neu remand i Lety awdurdod lleol / Cadw Ieuenctid.

- Ble mae person ifanc yn ymddangos o flaen y llys, bydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynorthwyo'r llys i lenwi Asesiadau Mechnïaeth a gwneud argymhellion ynglŷn ag addasrwydd ac neu remandio mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Plant a'r Tîm Dyletswydd Argyfwng.

Rôl Gwasanaethau Plant a'r Tîm Dyletswydd Argyfwng

- Ble cysylltir i ofyn am lety awdurdod lleol diogel neu anniogel, bydd Gwasanaethau Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng yn nodi lleoliad priodol.

- Bydd Gwasanaethau Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng yn cael mynediad i System Rheoli Achos Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a chronfa ddata Gwasanaethau Plant a chynnal gwiriadau perthnasol i weld a yw'r person ifanc yn hysbys i'r gwasanaethau lleol. Bydd yna fynediad i asesiadau ac adolygir er mwyn cynorthwyo i nodi lleoliadau priodol.

- Yn ystod oriau'r swyddfa, bydd Gwasanaethau Plant yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i archwilio a ellir goresgyn gwrthwynebiadau i wrthod mechnïaeth.

- Bydd Gwasanaethau Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng yn cysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gyda gweithgareddau llys er

mwyn i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lenwi asesiadau mechnïaeth a chyflwyno argymhellion i'r llys.

- Ble mae person ifanc yn cael ei drosglwyddo i lety Awdurdod Lleol, bydd y plentyn neu berson ifanc yn 'derbyn gofal' at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ble mae'r trosglwyddiad am gyfnod o fwy na 24 awr a bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cyfrifoldebau o'r fath.

- Ble mae person ifanc yn cael ei drosglwyddo i lety awdurdod lleol, bydd Tîm Dyletswydd Argyfwng y tu allan i oriau yn hysbysu Gwasanaethau Plant a Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid drwy e-bost diogel.

- Dylai Gwasanaeth Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng sicrhau bod trefniadau wedi eu gwneud i'r person ifanc fynd i'r llys gydag Oedolyn Priodol.

- Ble cytunir i drosglwyddo, dylai'r Heddlu a'r Gwasanaethau Plant gytuno sut bydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu cludo i leoliad diogel/anniogel.


Allwedd:
Ydy
Nac ydy
Gweithredu
Person ifanc yn nalfa'r heddlu
Heddlu yn nodi y bydd Mechniaeth yn debyg o gael ei wrthod ar ôl cyhuddo o'r orsaf heddlu.
Ydy'r person ifanc wedi'i arestio am dorri mechniaeth neu warant heb ei gefnogi ar gyfer mechniaeth?
Nac ydy
Ydy
Heddlu yn asesu bod y person ifanc mewn perygl o niwed difrifol i eraill.
Gwrthod mechniaeth a'r person ifanc i aros yn nalfa'r heddlu tan y llys nesaf. Heddlu i hysbysu Gwasanaeth Cyfiawnder
Heddlu i gysylltu â Swyddog Dyletswydd GCI i weld a ellir goresgyn gwrthod mechniaeth drwy amodau mechniaeth penodol
Ydy GCI a'r Heddlu wedi gallu goresgyn gwrthwynebiad i fechniaeth?
GCI a'r Heddlu wedi cytuno ar fechniaeth amodol
Ydy'r Heddlu wedi cysylltu â'rTîm Dyletswydd ac Asesu Gwasanaethau Plant (yn ystod oriau'r swyddfa) neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng (y tu allan i oriau) i nodi lleoliad anniogel/ diogel?
Gwasanaethau Plant neu Tîm Dyletswydd Argyfwng yn cynnal asesiadau i nodi lleoliadau
GCI yn darparu asesiadau presennol neu flaenorol i Wasanaethau Plant neu Dîm Dyletswydd Argyfwng.
Person ifanc i aros yn nalfa'r heddlu nes y Llys nesaf ar gael
A nodwyd lleoliad?
Heddlu yn methu cysylltu â'r Awdurdod Lleol ar ôl sawl ymdrech
Person ifanc yn cael ei gludo i'r lleoliad gan yr Heddlu neu'r Gwasanaethau Plant
Cofnod dalfa wedi'i ardystio gan Ringyll Dalfa ac achos wedi'i atgyfeirio drwy e-bost Diogel i GCI perthnasol a chyfeirio i Arolygydd Polisi drwy e-bost fydd yn adrodd i PVPU.
Trefniadau gan y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod person ifanc yn mynychu'r llys nesaf sydd ar gael
Os yw'r person ifanc yn aros mewn Llety Diogel/Anniogel ALI dros 24 awr, person ifanc â statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal
Gwasanaethau Plant yn hysbysu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn i Swyddog y Llys fynychu'r Llys.